**TUDALEN 35**
Cofnodion cyfarfod **Cyngor y Ddinas** o bell, a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom **nos Lun 6 Medi 2021** am 6.50pm.

**YN BRESENNOL: -** Eu Teilyngdod y Maer Cynghorydd Owen Hurcum, y Dirprwy Faer Cynghorydd Gwynant Roberts
Cynghorwyr : Les Day, Dylan Fernley, Derek Hainge, Medwyn Hughes, Elin Walker Jones (*gadawodd y cyfarfod am 8.31*), Huw Wyn Jones (*gadawodd y cyfarfod am 7.50*), John Wynn Jones, Kieran Jones, John Martin, Enid Parry, Nigel Pickavance, Luke Tugwell, John Wyn Williams (*ymunodd â'r cyfarfod am 7.18*).

Swyddogion:- Iwan Williams, Cyfarwyddwr Dinesig, Delyth Davies (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion)

**92/21 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gareth Roberts, Mair Rowlands, George Turner.

**93/21 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim.

**94/21 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**
Dim.

*Ataliwyd y rheol sefydlog sy'n mynnu fod aelodau yn sefyll er mwyn siarad yn y cyfarfod*

**95/21 COFNODION**

a) Cyngor Llawn – 28 Mehefin 2021 – Cadarnhau fel cofnod cywir – Tud. 17-22
Cymeradwywyd
b) Pwyllgor Cynllunio – 19 Gorffennaf 2021 - Cadarnhau fel cofnod cywir – Tud. 23-24
Cymeradwywyd
c) Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid - 19 Gorff. 2021 - Cadarnhau fel cofnod cywir – Tud. 25 – 28
Cymeradwywyd
d) Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor – 26 Gorff 2021- Cadarnhau fel cofnod cywir – Tud. 29
Cymeradwywyd
e) Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau – 26 Gorff. 2021 - Cadarnhau fel cofnod cywir Tud. 30-32
Cymeradwywyd

**96/21 CYNIGION MARCHNAD AWYR AGORED BANGOR**

Roedd dau gynnig ar gyfer rhedeg y farchnad wedi'u hanfon i'r aelodau, y naill gan unigolyn oedd yn gofalu ar ôl sawl marchnad yng Ngogledd Ddwyrain Cymru a'r llall gan unigolion oedd yn gysylltiedig â marchnad Bae Colwyn. Adroddodd y Maer fod pawb yn awyddus i

weld marchnad yn ôl ym Mangor a gwahoddodd sylwadau ar y ddau gynnig. Pwysleisiwyd, i ddechrau, y byddai'n rhaid i unrhyw unigolyn neu grŵp oedd yn dymuno trefnu marchnad ym Mangor gael caniatâd gan Gwmni Marchnad Bangor, yn ôl cyfraith sy'n dyddio'n ôl flynyddoedd lawer. Ond byddai'n rhaid i Gyngor Dinas Bangor allu goruchwylio unrhyw gynnig a dderbynnid a bod â rheolaeth dros unrhyw drefniadau.
Roedd rhinweddau gan y ddau gynnig, a thrafodwyd y rhain yn drwyadl.
Holwyd a fyddai modd i'r farchnad ehangu a gosod stondinau mewn llefydd ychwanegol, e.e. ar y lawnt ger Storiel neu hyd yn oed y tu allan i'r Gadeirlan, lle'r arferai'r hen farchnad sefyll, ganrifoedd yn ôl.
Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Dinesig hefyd am eglurder ynghylch gweithio allan unrhyw elw fyddai'n dod i Gyngor y Ddinas.
Fodd bynnag, roedd teimlad cryf nad cyfle i wneud arian i'r Cyngor oedd hwn ond cyfle i wella'r Stryd Fawr a dod â phobl yn ôl iddi, rhywbeth sydd yn fawr ei angen.
Awgrymwyd fod angen trafodaeth bellach ar rai manylion a **PHENDERFYNWYD** ffurfio grŵp llywio fyddai'n cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Asedau, ynghyd â chynrychiolwyr o Gwmni Marchnad Bangor. Gwahoddir cynrychiolwyr o Gwmni Marchnad Bangor i'r Pwyllgor Asedau ar 27 Medi i drafod ymhellach.

**97/21: CAIS AM GYLLID: GRŴP PLACIAU BANGOR**

a) Atgoffwyd yr aelodau gan y Cynghorydd Les Day ei bod hi wedi bod yn aelod o grŵp yn 2010 a oedd wedi gosod 7 plac i anrhydeddu saith o feibion a merched enwog Bangor. Eglurodd gefndir y grŵp hwnnw a sut yr aed ati i sicrhau cyllid. Erbyn hyn mae grŵp yn ystyried gosod mwy o blaciau a byddent yn hoffi cefnogaeth Cyngor Dinas Bangor. Cafodd y syniad groeso brwd gan yr aelodau a gofynnwyd sut y gallent helpu; hefyd pwy sy'n penderfynu pwy sy'n deilwng o gael plac gan fod cynifer o enwogion mewn gwahanol feysydd. Atebodd y Cyng. Day fod Cyngor Dinas Bangor wedi cyfrannu drwy helpu ond nid cymorth ariannol y tro diwethaf. Byddai angen ffurfio pwyllgor ac yna byddai'r pwyllgor yn gwahodd enwebiadau.
   **PENDERFYNWYD** cefnogi'r cais mewn egwyddor a disgwyl manylion pellach. Awgrymodd Eu Teilyngdod y Maer y gellid defnyddio cyllid o'r gyllideb Hyrwyddo.

b) Yn y cyfamser, cynlluniwyd plac i'w osod ar hen dŷ'r Archddiacon, a dangoswyd braslun o'r plac i'r aelodau. Mae'n coffau golygfa o ddrama Shakespeare, Henry IV, sy'n disgrifio cytundeb hanesyddol arwyddocaol iawn yng nghyfnod Owain Glyndŵr, y "Cytundeb Tridarn", a gafodd ei wneud yn ôl y sôn yn yr adeilad hwn.
   **PENDERFYNWYD** o blaid gosod y plac, fel y'i dangoswyd ar y braslun. Holwyd a oedd maint A4 yn fach efallai i'r adeilad arbennig hwn. Awgrymwyd hefyd ychwanegu cod QR fel y gallai pobl ddarllen mwy am yr hanes.

**98/21: ASEDAU CYMUNEDOL: DIWEDDARIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG**

Roedd y diweddariad wedi cael ei gylchredeg i'r aelodau cyn y cyfarfod. Pwyntiau ychwanegol:

**TUDALEN 37**

a) Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod cyfraniadau ym mynedfa'r Pier wedi cynyddu'n sylweddol. Roedd y diolch am hyn i bresenoldeb gwirfoddolwyr a drefnwyd gan Ffrindiau Pier Garth Bangor. Roedd dau aelod o'r Cyngor, Cynghorwyr Enid Parry a Luke Tugwell wedi bod yn rhan allweddol o'r ymgyrch.
b) Yn ei adroddiad, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Dinesig unwaith eto at y ffaith fod Cae Dargie wedi mynd yn beryglus erbyn hyn a'i awgrym ef oedd gosod ffens o'i amgylch. Yn dilyn trafodaeth, roedd yr aelodau'n gwrthwynebu gosod ffens o amgylch unrhyw ddarn o dir cyhoeddus. Roedd teimlad y byddai hyn yn anaddas, gan fod y cae hwn, fel rhai eraill, wedi cael eu rhoi i bobl Bangor i'w ddefnyddio fel man agored. Teimlid y byddai'n ddigonol gosod arwyddion yn rhybuddio'r cyhoedd fod y cae yn beryglus.
c) Y broblem arall oedd baw ci ar gaeau Ashley Jones. Roedd gweithwyr y cyngor wedi cael profiadau annymunol wrth dorri'r gwair ac wedi gofyn yn benodol am gael gosod arwydd yn dweud y dylai pob ci gael ei gadw ar dennyn. Nid oedd yr aelodau'n credu y byddai hyn yn ddigon i stopio'r broblem. Mae angen addysgu'r cyhoedd, a gan nad ydynt yn gweld swyddogion gorfodi, awgrymwyd cynnal ymgyrch wybodaeth drwy gyfryngau fel y *Bangor Aye* i atgoffa pobl ei bod yn drosedd peidio â glanhau ar ôl eich anifail anwes.

Awgrymwyd hefyd mai'r Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau oedd y lle i drafod materion fel yr uchod ac yna eu trosglwyddo i'r Cyngor llawn eu cadarnhau.
**PENDERFYNWYD** (i) peidio â gosod ffens o amgylch Cae Dargie ond tynnu sylw at y ffaith ei fod yn beryglus a (ii) gosod arwydd ar Gaeau Ashley Jones i ddweud y dylai cŵn gael eu cadw ar dennyn.

**99/21 FFRAMWAITH ADFYWIO CYNGOR GWYNEDD – ARDAL NI 2035**
Roedd y Cyfarwyddwr Dinesig eisoes wedi anfon gwybodaeth i aelodau am y fframwaith adfywio sy'n cael ei arwain gan Gyngor Gwynedd. Bydd yr aelodau'n cael cyfle i gymryd rhan ac i ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad, a fydd yn holi am yr heriau a'r cyfleoedd i Fangor erbyn 2035. **PENDERFYNWYD** gwahodd cynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd i'r Pwyllgor Asedau ar 27 Medi i drafod ymhellach.

**100/21 CYNLLUN LLESIANT LLEOL GWYNEDD-MÔN: CYFRANIAD CYNGOR DINAS BANGOR**

Yn dilyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae gan y Cynghorau Tref a Chymuned Mwy o Faint ddyletswydd gyfreithiol i adrodd ar sut maent yn bodloni gofynion y Ddeddf. Cyhoeddwyd cynllun llesiant lleol 4 blynedd yn ôl gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd-Môn, a dylai Cyngor Dinas Bangor ddangos sut y mae'n cyfrannu at y gwahanol themâu. Fodd bynnag, nid oedd wedi cael ei ddiweddaru a thynnwyd sylw at hyn fel gwendid yn yr archwiliad mewnol. Bellach mae'r Cyfarwyddwr Dinesig wedi rhoi enghreifftiau o gyfraniad Cyngor y Ddinas. DERBYNIWYD yr wybodaeth gan yr aelodau, ar wahân i'r angen i egluro fod Tai yn gyfrifoldeb i'r Cyngor Sir, nid i Gyngor y Ddinas.

**TUDALEN 38**
**101/21 GRANT CREU LLEOEDD LLYWODRAETH CYMRU**

Roedd y Cyfarwyddwr Dinesig wedi dosbarthu copi o gais Cyngor y Ddinas i Lywodraeth Cymru. Grant yw hwn i adfywio canol trefi a dinasoedd Cymru yn sgil y pandemig. Mae'r grant yn werth £100k, Llywodraeth Cymru yn cyfrannu 70% ohono a'r 30% arall yn dod trwy arian cyfatebol.
Eglurodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod angen llawer o fanylder ar y math hwn o gais ac nad oedd digon o gapasiti gan y Cyngor ar hyn o bryd. Byddai dod o hyd i arian cyfatebol yn her hefyd. Fodd bynnag, os nad yw'r cais yn llwyddiannus y tro hwn, mae wedi gosod seiliau pwysig i ehangu arno yn y dyfodol. Roedd yn disgwyl penderfyniad yn ddiweddarach yn yr wythnos.
Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Dinesig am ei waith caled yn paratoi'r cais. Tra'n disgwyl y penderfyniad, **PENDERFYNWYD** derbyn y cynllun ac o hyn ymlaen ei drafod ymhellach yn y Pwyllgor Asedau.

**102/21 WARD DEWI: SEDD WAG**

Yn dilyn cyfweliad gyda'r ymgeisydd aflwyddiannus ym mis Gorffennaf 201, roedd unigolyn arall wedi mynegi diddordeb mewn cael ei gyfethol i'r sedd. Fodd bynnag, roedd wedi tynnu'n ôl ar y funud olaf.
**PENDERFYNWYD** gadael y sedd yn wag am y tro gan y bydd etholiad Cyngor ym mis Mai 2022.

**103/21 AFGHANISTAN A CHEFNOGAETH FFOADURIAID BANGOR**

Roedd e-bost wedi dod gan Glwb Rotari Bangor a oedd yn dymuno gweithio gyda Chyngor Dinas Bangor i helpu ffoaduriaid o Afghanistan. Roedd y Cyngor wedi gweithio gyda'r Clwb Rotari yn y gorffennol.
Roedd yr aelodau'n awyddus iawn i helpu'r ffoaduriaid, ond roedd angen gwybod pa fath o gymorth yr oedd y Rotari'n gofyn amdano. Dywedwyd fod nifer o asiantaethau'n helpu'r ffoaduriaid, yn fwyaf amlwg *Pobl i Bobl* ac roedd peryg dyblygu gwaith. Dywedwyd mai Cyngor Gwynedd yw'r brif asiantaeth sy'n cydlynu'r cymorth.
**PENDERFYNWYD** mynd at Gyngor Gwynedd i ddweud yr hoffi Cyngor Dinas Bangor helpu'r ffoaduriaid a gofyn am arweiniad ganddyn nhw.

**104/21 ARCHWILIAD 2018/19: CYMERADWYO DATGANIAD BLYNYDDOL**

Eglurodd y Cyfarwyddwr Dinesig mai'r rheswm fod yr eitem hon yn dal i fod gerbron oedd oherwydd effaith tymor hir adroddiad Nantporth. Yr unig beth sydd ar ôl yw i'r Cyngor dweud eu bod wedi derbyn yr archwiliad a chymeradwyo'r ffurflen.
**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r ffurflen o 2018/19.

**105/21 DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021: PRESENOLDEB AML-LEOLIAD MEWN CYFARFODYDD** Gwelliant i'r Rheolau Sefydlog

**TUDALEN 39**
Eglurodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod angen newid y Rheolau Sefydlog i adlewyrchu cyfarfodydd rhithiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi deddfu fod yn rhaid gallu cynnig cyfarfodydd aml-leoliad. Byddai Cyngor Dinas Bangor yn parhau i gyfarfod o bell ac eithrio'r Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd y Penrhyn.
Roedd gan yr aelodau deimladau cymysg am hyn. Er bod cyfarfodydd rhithiol yn gyfleus iawn, roedd teimlad cyffredinol fod llawer yn cael ei golli drwy beidio gallu cyfarfod wyneb yn wyneb. Os yw Cynghorwyr newydd yn ymuno, ni fydd ganddynt gyfle i ddod i adnabod eu cyd-aelodau. Cynigiwyd y dylid gwneud ymdrech i ddychwelyd yn ôl i'r arferol pan fydd amgylchiadau'n caniatáu.
**PENDERFYNWYD** newid geiriad y gwelliant o *bydd cyfarfodydd... yn cael eu cynnal o bell* i *gall cyfarfodydd ... gael eu cynnal o bell*. Byddai hyn yn cynnig mwy o hyblygrwydd yn y dyfodol.

**106/21 DIWEDDARIAD LLOFNODION AWDURDODEDIG**

Roedd angen diweddaru'r rhestr ar gyfer gwneud taliadau'r Cyngor. O hyn ymlaen, byddai'r Cyfarwyddwr Dinesig, y Maer a'r Dirprwy Faer yn gallu llofnodi taliadau. Roedd pawb o blaid.

**107/21 ANFONEBAU I'W TALU**

Cytunwyd i dalu hanner yr anfoneb am adroddiad Nantporth Swyddfa Archwilio Cymru eleni, a'r hanner arall yn y flwyddyn ariannol nesaf, fel y cytunwyd yn flaenorol. Eglurodd y Cyfarwyddwr Dinesig mai'r taliad mwyaf y tro hwn oedd £8,830 i Gyngor Gwynedd am y rhwydwaith CCTV.
Cymeradwywyd yr anfonebau a oedd yn dod i gyfanswm o £15,556.40.

**108/21 ARWYDDO DOGFENNAU**

Cymeradwyo arwyddo unrhyw ddogfennau sy'n berthnasol i unrhyw benderfyniad o'r Cyfarfod hwn o'r Cyngor.
Cymeradwywyd

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.51 pm.**

CITY DIRECTOR– Iwan Williams – CYFARWYDDWR DINESIG